



Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales

Astudiaeth achos y treialon

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Cafodd pobl leol, partneriaid a busnesau eu cynnwys drwy gydol y cynlluniau treialu er mwyn profi syniadau, casglu tystiolaeth, a chytuno ar flaenoriaethau.

Y Rhondda



Fe wnaethom ni gyfarfod a gweithio gydag amrywiaeth eang o bobl yn y Rhondda, gan gynnwys: sefydliadau, busnesau lleol, grwpiau cymunedol, myfyrwyr, gwirfoddolwyr a thrigolion.

Ymgysylltwyd mewn ffyrdd amrywiol eu maint, o siarad â thrigolion a grwpiau cymunedol mewn digwyddiadau lleol, i drefnu gweithdai ymgysylltu ar raddfa fawr.

Cafwyd egni a brwdfrydedd mawr at y dull gan bobl a oedd yn awyddus i rannu eu gwybodaeth a'u syniadau. Wnaethom ni ddim gosod agendâu ac roedd hynny'n annog dialog agored.

Buom yn gweithio'n agos â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf drwy gydol y cynllun treialu gan rannu'r hyn a ddysgom, cyd-drefnu digwyddiadau cymunedol, a mynychu cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Roedd cael cefnogaeth cydlynedd Cynefin yn y fan a'r lle yn hanfodol hefyd wrth ymwneud â chymunedau lleol.

Roedd y gweithdai'n hanfodol er mwyn canfod y prif bethau roedd y bobl ei eisiau ar gyfer eu cymuned a'u gobeithion ar gyfer yr ardal. Fe wnaethom ni wahodd busnesau lleol i siarad hefyd. Er enghraifft, siaradodd berchennog siop feics leol i rannu ei bersbectif o'i dref enedigol a'i weledigaeth am barc beics addas i deuluoedd yn ardal isaf y Rhondda a gobeithiai y byddai hwnnw o fudd i'r gymuned leol.



Fe ddysgom ni fod brwdfrydedd mawr tuag at gydweithio a chyd-gynhyrchu, ac mae amrywiaeth eang o randdeiliaid yn ein hannog i feddwl yn arloesol ac yn helpu i ddeall yn well beth yw sydd wrth wraidd y problemau.

Dyfi

Yn ardal afon Dyfi, fe wnaethom ni drefnu cyfarfodydd cyhoeddus agored, sesiynau galw heibio, cyfarfodydd â thirfeddianwyr drwy gysylltiadau sy'n bodoli eisoes, a chyfarfodydd â sefydliadau sydd â diddordeb.

Fe wnaethom ni greu cynnyrch gweledol fel fideo am gynllun treialu afon Dyfi a oedd yn caniatáu inni gyflwyno'r sefyllfa mewn cyfarfodydd. Fe wnaethom ni hefyd ddefnyddio mapiau, yn enwedig mapiau cyfleoedd, i ddangos sut y gallai'r gwaith edrych.



Roedd y dull wyneb yn wyneb yn dangos ein bod yn weladwy ac yn hygyrch, ac roedd yr adborth yn digwydd ar unwaith ac roedd modd ymateb iddo yn y fan a'r lle. Roedd defnyddio amryw o ddulliau ymgysylltu wedi gweithio'n dda, er ei bod yn anos cyrraedd rhai grwpiau megis pobl ifanc a thirfeddianwyr.

Mae angen i 'ymgysylltu' olygu mwy na phartneriaeth rhwng pobl awyddus. I gael blaenoriaethau cytbwys, mae'n hanfodol cael barn grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd a'r rhai sydd â dylanwad mawr.



Fe wnaeth y ffermwyr a'r grwpiau ffermwyr y buom yn ymgysylltu â nhw yn y cynllun treialu roi negeseuon clir ynglŷn â chynnal incwm, cadw diwylliant a'r angen i gael cytundebau cymhelliant hirdymor. Roedd y mewnbwn 'o'r gwaelod i fyny' gan ffermwyr ardal afon Dyfi eu hunain yn llawer mwy gwerthfawr nag unrhyw beth y gallai cynrychiolwyr ei ddarparu.

Roedd maint yr ymgysylltiad wedi'i gyfyngu gan yr amser a oedd ar gael. Mae angen amser ac ymdrech i ymgysylltu'n iawn, ac mae angen cael pwrpas clir mewn perthynas â'r lle. Mae hefyd yn cymryd amser i feithrin perthnasoedd gyda rhai grwpiau diddordeb – megis tirfeddianwyr.

Tawe

Yn ardal afon Tawe, boom yn gweithio â Fforwm Amgylcheddol Abertawe i hysbysu, ysbrydoli a chynnwys pobl yn y gwaith o wneud penderfyniadau am eu hadnoddau naturiol. Drwy weithio gyda nhw, roeddem yn gallu cyrraedd cynulleidfaoedd na fyddem wedi eu cyrraedd fel arall.

Roedd y prosiect yn cynnwys arolwg cyhoeddus ar-lein ac wyneb yn wyneb, a digwyddiadau cymunedol gyda'r nos. Fe wnaethom ni drefnu cynhadledd gyda gweithdai'n canolbwyntio ar greu cynllun gweithredu i wella'r ardal. Fe wnaethom ni ddefnyddio dulliau pleidleisio electronig fel rhan o'n prosiect Ein Bae Ni y byddai'n werth tynnu sylw ato oherwydd bod hwn wedi gweithio'n dda fel techneg i gael consensws mewn digwyddiad. Hefyd, cafwyd gwefan ryngweithiol ar sail delwedd drawiadol o'r dalgylch yn gofyn i bobl adael sylwadau am y prif faterion a chyfluoedd.

Cyfrannodd cyfanswm o 269 o bobl at yr ymgynghoriad, ac edrychodd 1,150 o bobl ar y wefan 'natur gyfar'.

Roedd ambell dechneg yn fwy llwyddiannus na'r lleill. Efallai fod yr amser arweiniol ar gyfer rhai elfennau o'r gwaith a'r adnoddau a oedd ar gael wedi amharu ar y llwyddiant. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer y wefan a'r digwyddiadau ymgynghori cymunedol. Ond yr hyn y mae'r prosiect wedi ei ddangos yw bod dull cymysg o ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gallu bod yn fuddiol - ac yn ei gwneud yn fwy tebygol fod amrywiaeth ehangach o randdeiliaid yn cael eu cynnwys.



Smart Nature: Beacons to Bay

Visit the new interactive website:
www.smartnature.net

Explore the Tawe Corridor and Swansea Bay to discover how we all benefit from natural resources in so many ways.

Tell us how you feel about the natural environment in your area - your concerns and ideas for improving how it is managed for people, the environment and the economy.

Smart Nature is a partnership project of
Swansea Environmental Forum and Natural Resources Wales

Swansea Environmental Forum
Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

The graphic features a colorful illustration of a coastal landscape with green hills, a blue bay, and buildings, framed by a circular border.